

Adroddiad Arolygu ar gyfer Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

FemHaus, Abertawe

Dyddiad yr arolygiad: 18 Mehefin 2026

Dyddiad cyhoeddi: 18 Medi 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau amgen gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copi o bob adroddiad, pan gaiff ei gyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu:

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80853-316-7

© Hawlfraint y Goron 2026



Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw rheoleiddiwr ac arolygiaeth annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein Diben

Rydym yn gwirio diogelwch ac ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.

Ein Gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Rydym yn:

Annibynnol – rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud.

Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth.

Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws.

Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith.

Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae ei angen fwyaf.

Ein Gweledigaeth

Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol ac o ansawdd uchel i bawb.

Ein Blaenoriaethau

Rhoi Pobl yn Gyntaf – Byddwn yn canolbwyntio ar y risgiau mwyaf y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd nawr ac yn y dyfodol.

Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd – Byddwn yn cydweithio â phartneriaid er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac ysgogi gwelliannau parhaus.

Buddsoddi yn Ein Pobl – Byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso.

Cymryd Camau sydd o Bwys – Byddwn yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd ar gyfer dyfodol Cymru.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	Ansawdd Profiad y Claf	9
	Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	15
4.	Y camau nesaf	17
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	18
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	19
	Atodiad C – Cynllun gwella	25



1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o FemHaus, Abertawe ar 18 Mehefin 2026.

Cynhaliwyd yr arolygiad gan ddau arolygydd gofal iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 34 o holiaduron. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gawsom yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod cleifion yn cael lefel dda o ofal yn FemHaus. Roedd cleifion yn cael ymgynghoriad llawn ac yn cael digon o wybodaeth cyn ac ar ôl y driniaeth i'w galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus. Roedd cleifion yn cael eu trin mewn ffordd urddasol a pharchus drwy gydol eu taith fel cleifion. Roedd trefniadau cadarn ar waith i gefnogi preifatrwydd ac urddas cleifion yn llawn, ac roedd ymgynghoriadau yn cael eu cynnal mewn ystafell drin breifat. Roedd y systemau a oedd ar waith i gofnodi ac ymateb i adborth gan gleifion yn foddhaol. Gwelsom nad oedd y datganiad o ddiben na'r canllaw i gleifion yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol yn unol â'r rheoliadau.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Ni allai'r clinig ddangos tystiolaeth bod cofrestr triniaethau cleifion wedi'i chofnodi, a ddylai gynnwys pob triniaeth laser, gan gynnwys paramedrau trin, manylion y gweithredwr, asesiadau clinigol ac ôl-ofal, er mwyn sicrhau gofal diogel a chyson y gellir ei olrhain.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith wedi'u nodi yn [Atodiad B](#).

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Adolygu'r datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Lefelau uchel o adborth cadarnhaol ar brofiad y claf
- Y gallu i ddarparu gwasanaethau mewn ieithoedd eraill, gan gynnwys Pwyleg a Rwsieg
- Gofynnwyd am gydsyniad ysgrifenedig cyn pob triniaeth, a oedd yn cael ei gofnodi yng nghofnodion y cleifion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y clinig yn groesawgar iawn ac yn cael ei gyflwyno'n dda mewn modd glân, taclus a threfnus. Roedd y lleoliad yn rhoi triniaethau gan ddefnyddio peiriannau a oedd wedi'u gwasanaethu'n briodol, ac roedd gan y lleoliad gydberthynas dda â'i Gynghorydd Diogelu rhag Laserau, a oedd o fudd i'r cleifion a'r staff. Gwnaethom nodi nad oedd yr asesiad risg laser wedi'i ddiweddarau ar ôl adleoli'r cyfarpar laser, a'i fod yn nodi bod angen lefel uwch o amddiffyniad llygaid. Codwyd y materion hyn yn ystod yr arolygiad ac aethpwyd i'r afael â nhw'n brydlon, drwy lunio asesiad risg wedi'i ddiweddarau a darparu sbectolau amddiffynnol priodol.

Roedd dyddiad defnyddio rhai o'r eitemau yn y pecyn cymorth cyntaf wedi mynd heibio, ond cafwyd gwared ar yr eitemau hyn a chafwyd eitemau newydd yn eu lle y diwrnod ar ôl yr arolygiad. Fel y soniwyd, roedd y clinig yn lân ac yn drefnus iawn, ond nid oedd amserlenni glanhau atal a rheoli heintiau yn cael eu cofnodi na'u cadw'n ffurfiol ac nid oedd hyfforddiant yn cael ei gwblhau.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Ni allai'r clinig ddangos tystiolaeth o wiriadau diogelwch tân rheolaidd, nid oedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelwch tân, ac roedd yr allanfa dân yng nghefn yr adeilad wedi'i rhwystro'n rhannol.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith wedi'u nodi yn [Atodiad B](#).

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Amgylchedd croesawgar, glân, taclus a threfnus i'r cleifion
- Ymatebodd y rheolwr cofrestredig yn brydlon i'r materion a nodwyd yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys cael asesiad risg diwygiedig gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau a mynd ati'n syth ar ôl yr arolygiad i roi eitemau newydd yn y pecyn cymorth cyntaf yn lle yr eitemau yr oedd eu dyddiad defnyddio wedi mynd heibio.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y clinig yn arddangos ei dystysgrifau cofrestru gan AGIC mewn man y gallai'r cleifion ei weld yn hawdd. Gwelsom fod yswiriant atebolrwydd cyflogwr ac atebolrwydd cyhoeddus dilys ar waith, gan roi sicrwydd bod trefniadau yswiriant priodol ar waith.

Roedd y clinig yn mynd ati i ofyn am adborth gan gleifion, ac roedd yr adborth a oedd ar gael yn ystod yr arolygiad am y gwasanaeth a ddarperir yn gadarnhaol. Er bod ffurflenni cwyno ar gael i'r cleifion, nid oedd y gwasanaeth yn gallu darparu tystiolaeth o bolisi na gweithdrefn gwyno, gan gyfyngu ar y sicrwydd y byddai cwynion yn cael eu rheoli'n gyson ac yn unol â'r gofynion rheoliadol.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Gwnaethom nodi bylchau sylweddol yn hyfforddiant gorfodol y rheolwr cofrestredig gyda sawl cwrs hyfforddi hanfodol heb eu cwblhau. Yn ogystal, roedd sawl polisi a gweithdrefn naill ai ar goll neu nid oeddent yn adlewyrchu'r arferion cyffredol yn gywir, gan gynnwys y trefniadau o ran diogelwch laser. Yn dilyn yr arolygiad, darparodd y gwasanaeth dystiolaeth bod sbectol amddiffynnol briodol bellach ar gael er mwyn helpu'r clinig i roi ei bolisi hebryngwyr ar waith yn ddiogel.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith wedi'u nodi yn [Atodiad B](#).

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gweithredu a chynnal polisi a gweithdrefn gwyno ffurfiol i sicrhau bod unrhyw bryderon a fynegir gan gleifion yn cael eu rheoli'n gyson ac yn briodol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Rheolwr cofrestredig gofalgarg, cyfeillgar a brwdfrydig
- Ymateb cadarnhaol i adborth ac awgrymiadau a wnaed yn ystod yr arolygiad.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Rhoddodd y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC adborth cadarnhaol am y gwasanaeth, a nododd pob ymatebydd ei fod wedi cael profiad ‘da iawn’.

Tynnodd y cleifion sylw hefyd at broffesiynoldeb y staff, eu cyfathrebu clir, a'u gallu i wneud iddynt deimlo'n gyfforddus, yn ddiogel a'u bod yn cael gofal da.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Mae'r gwasanaeth yn FemHaus yn eithriadol. Mae'r staff yn barod iawn i helpu ac yn gyfeillgar.”

“Mae'r clinig yn lân ac yn groesawgar iawn.”

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Dywedwyd wrthym fod y staff wedi rhoi cyngor ôl-ofal clir yn ystod ymgynghoriadau er mwyn helpu cleifion i ofalu am eu croen ar ôl cael triniaeth. Roedd hyn yn cynnwys canllawiau ar amddiffyn rhag yr haul a chymeriant dŵr priodol.

Urddas a pharch

Roedd y clinig yn gweithredu ar ddiwrnod yr arolygiad. Roedd yr holl ymgynghoriadau a thriniaethau yn cael eu cynnal yn yr ystafell ddynodedig ar gyfer triniaethau laser a oedd wedi'i lleoli ar y llawr gwaelod, ar wahân i'r dderbynfa. Roedd modd cloi drws yr ystafell, a chadarnhawyd bod y drws yn cael ei gadw ar gau ac yn cael ei gloi yn ystod triniaethau, gan sicrhau lleoliad preifat a diogel i gleifion.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur cleifion AGIC wrthym eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch, bod mesurau wedi'u rhoi ar waith i ddiogelu eu preifatrwydd a bod y staff wedi esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud yn ystod eu triniaethau.

Dywedwyd wrthym fod cleifion yn gallu dod â hebryngwr o'u dewis gyda nhw i'w hapwyntiad. Fodd bynnag, nid oedd gan y clinig bolisi hebryngwyr ar waith i nodi'r disgwyliadau ynghylch pryd y dylid cynnig hebryngwyr a sut y caiff hyn ei gofnodi. Er i ni weld tystiolaeth yn fuan ar ôl yr arolygiad fod y rheolwr cofrestredig wedi datblygu polisi hebryngwyr, roedd yn anghyson â'r arferion cyfredol a'r cyflenwad o sbectolau diogelwch a oedd ar gael ar gyfer hebryngwyr. Codwyd hyn gyda'r rheolwr cofrestredig ac aeth ati i ddiweddarau'r polisi hebryngwyr er mwyn adlewyrchu'r arferion cyfredol a sicrhau bod digon o sbectolau diogelwch ar gael i'r staff, y cleifion a'u hebryngwyr.

Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion pum claf. Gwelsom fod ymgynghoriad cychwynnol yn cael ei gwblhau a'i lofnodi gan y cleifion er mwyn cydsynio i driniaeth. Fodd bynnag, nid oedd polisi cydsynio i driniaeth na pholisi darparu gwybodaeth i gleifion ar waith. Codwyd hyn gyda'r rheolwr cofrestredig, a roddodd dystiolaeth i ni yn fuan ar ôl yr arolygiad bod y ddau bolisi wedi cael eu creu ers hynny.

Ar gyfer pob apwyntiad dilynol, roedd cofnodion y cleifion yn cynnwys gwybodaeth berthnasol am bob triniaeth a ddarparwyd. Dywedwyd wrthym fod y cleifion yn cael esboniadau llafar clir am y manteision a'r risgiau posibl cyn ac ar ôl y driniaeth, er mwyn sicrhau eu bod yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus am eu gofal.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd datganiad o ddiben a chanllaw i gleifion yn y clinig, a oedd ar gael i gleifion ar gais ar bapur neu'n electronig. Nid oedd y Datganiad o Ddiben yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol yn unol â Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011. Nodwyd hefyd nad oedd y canllaw i gleifion yn cynnwys manylion cyswllt AGIC.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol yn unol â Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.

Gallai'r cleifion drefnu apwyntiadau drwy gysylltu â'r clinig drwy'r cyfryngau cymdeithasol, dros y ffôn ac wyneb yn wyneb. Dangosodd y lleoliad ddulliau cyfathrebu effeithiol ac ymrwymiad clir i ddiwallu anghenion unigol.

Nid oedd gan y clinig aelod o staff a oedd yn siarad Cymraeg, ond roedd gwasanaeth Language Line ar gael pe bai cleifion yn dymuno cael gwybodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg neu mewn ieithoedd eraill. Roedd y rheolwr cofrestredig yn siarad Rwsieg a Phwyleg.

Cynllunio a darparu gofal

Cadarnhaodd cofnodion y cleifion fod prosesau priodol yn cael eu rhoi ar waith cyn triniaethau. Lle bo angen, roedd y cleifion wedi cael prawf croen cyn dechrau cwrs o driniaeth, gan alluogi'r ymarferydd i asesu'r tebygolrwydd o adweithiau niweidiol a theilwra'r gofal yn unol â hynny.

Fodd bynnag, nid oedd cofrestr triniaethau wedi'i chofnodi ar gyfer y peiriant laser, a oedd yn cyfyngu ar y gallu i olrhain triniaethau a gallu'r gwasanaeth i nodi digwyddiadau niweidiol ac ymateb iddynt. Gwelsom dystiolaeth ar ôl yr arolygiad fod cofrestr triniaethau cleifion wedi'i chyflwyno. Rhoddir rhagor o wybodaeth am y camau unioni a gymerwyd gan y gwasanaeth yn [Atodiad B](#).

Roedd gan y clinig bolisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar waith, i ddangos ei ymrwymiad i sicrhau mynediad teg i bob unigolyn at wasanaethau a bod pob unigolyn yn cael ei drin yn gyfartal. Fodd bynnag, nid oedd y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Darparodd y rheolwr cofrestredig dystiolaeth yn fuan ar ôl yr arolygiad i ddangos bod yr hyfforddiant ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi'i gwblhau.

Dywedwyd wrthym nad oedd dull cyson ar waith i gofnodi rhagenwau cleifion. Efallai yr hoffai'r clinig ystyried a oes ffyrdd o gofnodi a chyfleu'r wybodaeth hon, lle y bo'n briodol, er mwyn cefnogi gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ymhellach.

Dywedodd pawb a atebodd holiadur AGIC nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu wrth gysylltu â'r gwasanaeth neu wrth ddefnyddio'r gwasanaeth.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Dywedwyd wrthym fod adborth gan gleifion yn cael ei gasglu naill ai drwy adolygiadau ar-lein neu wyneb yn wyneb yn y clinig. Dywedodd y rheolwr cofrestredig fod adborth yn cael ei fonitro'n gyson a bod gwasanaethau'n cael eu haddasu'n briodol, lle bo hynny'n ymarferol. Dywedwyd wrthym fod yr holl adborth a gafwyd wedi bod yn gadarnhaol.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Yr Amgylchedd

Roedd yn ymddangos bod yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, yn fewnol ac yn allanol, a bod trefniadau diogelwch addas ar waith i atal mynediad heb awdurdod. Gwelsom fod y tu mewn i'r adeilad wedi'i adnewyddu i safon uchel yn ddiweddar. Roedd clo ar ddrws y clinig er mwyn sicrhau mai dim ond unigolion awdurdodedig a allai gael mynediad.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Gwelsom dystiolaeth bod y tystysgrifau profi nwy, diogelwch trydanol ac offer cludadwy wedi'u cwblhau'n foddhaol ac o fewn yr amserlenni gofynnol.

Gwelsom fod asesiad risg tân ar waith; fodd bynnag, ni allai'r clinig ddangos dystiolaeth bod gwiriadau diogelwch tân wedi'u cwblhau, gan gynnwys ymarferion tân, profi'r larwm, gwasanaethu cyfarpar, yr arwyddion gofynnol a hyfforddiant diogelwch tân. Cawsom dystiolaeth bod y canfyddiadau hyn wedi cael sylw a bod hyfforddiant wedi cael ei gwblhau ar ôl yr arolygiad. Roedd yr allanfa dân gefn hefyd wedi'i rhwystro'n rhannol ac nid oedd yn addas ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn. Cawsom dystiolaeth ar ôl yr arolygiad fod y rhwystrau o flaen yr allanfa dân wedi'u clirio, a bod ramp wedi'i archebu i'w gwneud yn fwy addas ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn. Rhoddir rhagor o wybodaeth am y camau unioni a gymerwyd gan y gwasanaeth yn [Atodiad B](#).

Roedd y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf a diploma uwch mewn iechyd a diogelwch yn y gweithle. Roedd dyddiad defnyddio rhai o'r eitemau cyfarpar yn y pecyn cymorth cyntaf wedi mynd heibio, ond cafwyd gwared ar yr eitemau hyn yn ystod yr arolygiad a chafwyd cyfarpar newydd y diwrnod ar ôl yr arolygiad.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod prosesau priodol ar waith i lanhau a dihalogi'r ardaloedd trin a'r cyfarpar aml dro yn effeithiol, ac roedd polisi atal a rheoli heintiau addas ar waith. Roedd cyfarpar diogelu personol yn cael ei ddarparu i'r staff a'r cleifion, ac yn cael ei ddefnyddio yn ystod triniaethau. Dywedwyd wrthym fod y staff yn diheintio cyfarpar ac yn sychu gwelyau cyn ac ar ôl triniaethau fel mater o drefn. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd rhestrau gwirio glanhau yn cael eu cofnodi na'u cadw, ac nad oedd y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau. Gwelsom dystiolaeth bod rhestrau gwirio glanhau wedi'u creu a bod hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau wedi'i gwblhau yn fuan ar ôl yr arolygiad.

Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed

Roedd gan y rheolwr cofrestredig ap Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar ei ffôn er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i drin cleifion 18 oed a throsodd. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y clinig yn cydymffurfio â hyn ac esboniodd fod cleifion, pan fyddant yn trefnu apwyntiad, yn cael cyfarwyddyd i beidio â dod â phlant gyda nhw gan na fydd modd iddynt eu gadael ar eu pen eu hunain.

Ni welsom dystiolaeth bod polisi diogelu ar waith na bod y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant diogelu; fodd bynnag, lluniwyd y polisi a chwblhawyd yr hyfforddiant yn fuan ar ôl yr arolygiad.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd gan y clinig reolau lleol ac asesiad risg ar waith a oedd wedi'i gwblhau gan Gynghorydd Diogelu rhag Laserau. Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom nodi nad oedd asesiad risg diweddaraf y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu'r ffaith bod y cyfarpar laser wedi cael ei symud i ystafell drin wahanol yn y clinig. Codwyd hyn gyda'r rheolwr cofrestredig a'r Cynghorydd Diogelu rhag Laserau, a lluniwyd asesiad risg diwygiedig wedi hynny. Ar ôl edrych ar y ddogfennaeth ddiwygiedig, nodwyd gennym bod yr asesiad risg yn dynodi lefel uwch o sbectol amddiffynnol na'r hyn a oedd ar gael yn y clinig. Codwyd y mater hwn gyda'r rheolwr cofrestredig a drefnodd ar unwaith i brynu sbectolau amddiffynnol priodol. Gwelsom dystiolaeth bod y rheolau lleol hefyd wedi cael eu diwygio i adlewyrchu'r asesiad risg diwygiedig.

Roedd y sbectolau amddiffynnol yn lân ac yn ôl pob golwg roeddent yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Fodd bynnag, ni welsom dystiolaeth bod gwiriadau rheolaidd wedi cael eu cynnal o'r sbectolau. Yn ystod yr arolygiad, cyflwynwyd trefniadau i gynnwys gwiriadau o'r sbectolau diogelwch fel rhan o'r rhestr wirio cyfarpar ddyddiol a'r gwiriadau rhwng cleifion.

Gwelsom fod arwyddion rhybuddio priodol wedi'u harddangos y tu allan i'r ystafell drin i rybuddio eraill bod cyfarpar laser yn cael ei ddefnyddio. Roedd trefniadau addas ar waith hefyd i sicrhau bod y cyfarpar yn ddiogel pan nad oedd yn cael ei ddefnyddio.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Dywedwyd wrthym fod y rheolwr cofrestredig yn sicrhau ei fod yn ymwybodol o driniaethau newydd er mwyn helpu i wella a sicrhau bod cleifion yn cael gwasanaeth o ansawdd.

Rheoli cofnodion

Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu storio mewn blwch metel diogel mewn cwpwrdd dan glo. Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig brosesau priodol ar gyfer gwaredu cofnodion, gan gynnwys cyfnodau cadw data. Roedd cofnodion y cleifion a welsom yn

cynnwys manylion adnabod y claf, hanes meddygol, cydsyniad, ffurflenni ymgynghori a hanes triniaethau.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd tystysgrif cofrestru'r clinig ag AGIC wedi'i harddangos ar y safle. Roedd gan y clinig yswiriant priodol ar waith hefyd, ac roedd tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus gyfredol ar gael i'w harchwilio.

Y rheolwr cofrestredig oedd yn berchen ar FemHaus ac yn ei reoli. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig ei bod yn gyfrifol am bob agwedd ar ddarparu'r gwasanaeth, gan gynnwys triniaethau, goruchwyllo safonau clinigol, trefniadau cadw cofnodion, a chydymffurfiaeth reoliadol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom nodi bylchau sylweddol yn nhrefniadau llywodraethu'r clinig. Nid oedd nifer o bolisiâu a gweithdrefnau allweddol ar gael neu roeddent yn anghyflawn ar adeg yr arolygiad. Roedd y rhain yn cynnwys polisiâu yn ymwneud â chael cydsyniad cleifion, darparu gwybodaeth i gleifion, hebryngwyr, diogelu, chwythu'r chwiban, rheoli prosesau cynnal a chadw, ac iechyd a diogelwch.

Er bod y clinig wedi darparu'r polisiâu hyn yn dilyn yr arolygiad, gwelsom nad oedd rhai yn adlewyrchu'r gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu yn gywir. Er enghraifft, roedd y polisi hebryngwyr yn nodi y gallai hebryngwyr aros yn yr ystafell drin yn ystod triniaethau laser. Fodd bynnag, ar adeg yr arolygiad dim ond dwy set o sbectolau diogelwch laser a ddangoswyd i ni, un y bwriadwyd iddi gael ei defnyddio gan yr ymarferydd ac un ar gyfer y claf, ac felly ni chawsom sicrwydd bod digon o sbectolau amddiffynnol ar gael i sicrhau diogelwch hebryngwr yn ystod triniaethau. Roedd yr anghysondeb hwn yn amlygu diffyg goruchwyliaeth effeithiol o ran sicrhau bod polisiâu a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u rhoi ar waith a'u bod yn gyson ag arferion cyfredol. Rhoddir rhagor o wybodaeth am y camau unioni a gymerwyd gan y gwasanaeth yn [Atodiad B](#).

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Y rheolwr cofrestredig oedd yn gyfrifol am oruchwyllo cwynion gan gleifion. Roedd ffurflen gwyno ar gael i gleifion a oedd yn dymuno gwneud cwyn. Nid oedd unrhyw gwynion na digwyddiadau blaenorol i ni eu hadolygu yn ystod yr arolygiad.

Fodd bynnag, ni welsom dystiolaeth i ddangos bod polisi na gweithdrefn gwyno ar gael i gleifion.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi polisi cwynion ar waith a sicrhau ei fod ar gael i'r cleifion.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Ar adeg yr arolygiad, rhoddodd y rheolwr cofrestredig dystiolaeth o wiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Y rheolwr cofrestredig oedd yn unig aelod o staff yn y

clinig a dywedodd wrthym nad oedd ganddi unrhyw fwriad i recriwtio yn y dyfodol.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Dywedwyd wrthym fod y rheolwr cofrestredig yn cynnal ei gwybodaeth a'i sgiliau drwy gwblhau hyfforddiant ar yr adegau gofynnol ac ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus sy'n berthnasol i'r triniaethau a ddarperir. Roedd y rheolwr cofrestredig, fel yr unig weithredwr laser awdurdodedig, wedi cwblhau hyfforddiant penodol i'r ddyfais a oedd yn cynnwys hyfforddiant Craidd Gwybodaeth.

Fodd bynnag, ar ddiwrnod yr arolygiad, ni chawsom dystiolaeth bod yr hyfforddiant canlynol wedi'i gwblhau:

- Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi
- Diogelu Plant ac Oedolion
- Diogelwch tân
- Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol.

Yn fuan ar ôl yr arolygiad, rhoddodd y rheolwr cofrestredig dystiolaeth i ni fod y rhain wedi cael eu cwblhau. Rhoddir rhagor o wybodaeth am y camau unioni a gymerwyd gan y gwasanaeth yn [Atodiad B](#).

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen ymdrin â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Roedd y pecyn cymorth cyntaf yn cynnwys eitemau o gyfarpar yr oedd eu dyddiad defnyddio wedi mynd heibio.	Yn cynyddu'r risg o oedi cyn cael triniaeth neu o gael triniaeth annigonol, a gall amlygu cleifion i niwed y mae modd ei osgoi	Codwyd y mater gyda'r rheolwr cofrestredig.	Cafodd y rheolwr cofrestredig wared ar yr hen eitemau stoc ar unwaith a chafodd eitemau newydd yn eu lle y diwrnod ar ôl yr arolygiad.

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: FemHaus

Dyddiad yr arolygiad: 18 Mehefin 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Canfyddiadau		Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau allweddol ar goll neu'n anghyson. Er i ni gael dogfennau wedi'u diweddarau y diwrnod canlynol, nid oeddent yn adlewyrchu'r arferion gwirioneddol – er enghraifft, roedd y polisi hebryngwyr yn nodi y gallai hebryngwyr fynd i mewn i'r ystafell laser er nad oedd digon o sbectolau amddiffynnol ar gael.	
Yr hyn sydd angen ei wella		Safon / Rheoliad	
1.	Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod pob polisi a gweithdrefn yn gywir, yn gyson â'r arferion gwirioneddol, ac yn cael eu hategu gan y cyfarpar angenrheidiol. Rhaid rhoi system strwythuredig ar waith i adolygu, diweddarau a gwirio ansawdd polisïau yn rheolaidd fel eu bod yn parhau'n gyfredol ac yn gyson â'r arferion gorau.	Rheoliad 9 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	
Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth:		Swyddog cyfrifol	Amserlen
Yn ystod yr arolygiad, dangosais fod gan y clinig ddau bâr o sbectolau amddiffynnol laser ar gael i gleifion. Roedd y rhain yn cynnwys un pâr o sbectolau amddiffynnol cwbl gaeedig a gynlluniwyd i orchuddio llygaid y claf yn llwyr ac un pâr o sbectolau diogelwch laser arbenigol. Felly roedd cyfarpar amddiffyn y llygaid priodol ar gyfer triniaeth laser ar gael i'w ddefnyddio yn ystod triniaethau.		Rheolwr Cofrestredig	Wedi'i gwblhau
O ran y polisi hebryngwyr, esboniais yn ystod yr arolygiad nad yw FemHaus erioed wedi cael cais gan glaf i ddefnyddio hebryngwr. Fodd bynnag, cefais wybod y dylai fod polisi hebryngwyr ysgrifenedig ar waith, a			

lluniais bolisi yn unol â hynny. Os bydd claf yn dewis dod â'i hebryngwr ei hun, bwriad y polisi yw sicrhau mai dim ond os rhoddir cyfarpar amddiffyn y llygaid priodol ar gyfer triniaeth laser iddo y caniateir i'r hebryngwr aros yn yr ystafell drin. Byddai'r claf yn parhau i wisgo'r cyfarpar amddiffyn y llygaid cwbl gaeedig ar gyfer triniaeth laser drwy gydol y driniaeth. Hoffwn egluro na fyddwn ar unrhyw adeg yn caniatáu i neb aros yn yr ystafell ar gyfer triniaethau laser heb gyfarpar amddiffyn y llygaid priodol. Diogelwch cleifion ac ymwelwyr yw fy mhrif flaenoriaeth, ac rwyf wir yn cymryd pob gofyniad iechyd a diogelwch o ddifri. Yn dilyn yr arolygiad, rwyf wedi adolygu a diwygio'r polisi hebryngwyr er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu arferion y clinig a'r cyfarpar sydd ar gael yn gywir, gan ddileu unrhyw amwysedd a sicrhau cysondeb rhwng y polisi ysgrifenedig a'r gweithrediadau o ddydd i ddydd.		
--	--	--

Canfyddiadau		The clinic could not evidence fire-safety checks which included drills, alarm testing, equipment servicing, required signage and fire-training. The rear fire exit was also partially obstructed and was unsuitable for wheelchair users.	
Yr hyn sydd angen ei wella		Safon / Rheoliad	
2.	Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod y trefniadau diogelwch tân yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, gan gynnwys ymarferion tân, profi'r larwm, gwasanaethu cyfarpar ac arwyddion. Rhaid i'r staff hefyd gwblhau hyfforddiant ar ddiogelwch tân. Rhaid cadw'r allanfa dân gefn yn glir a gwneud trefniadau i sicrhau ei bod yn fwy addas ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn.	Rheoliad 26 (4) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	
Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth:		Swyddog cyfrifol	Amserlen
Yn ystod yr arolygiad, roedd y Cyfarwyddwr eisoes wedi cadarnhau bod arbenigwr diogelwch tân wedi cael ei drefnu i ddod i'r clinig i archwilio a gwasanaethu'r diffoddwyr tân. Gan fod y diffoddwyr wedi'u prynu'n ddiweddar, roeddwn i ar ddeall nad oedd angen eu gwasanaethu bob blwyddyn ar unwaith oherwydd gwarant pum mlynedd y gwneuthurwr. Fodd bynnag, roeddem eisoes wedi trefnu i arbenigwr		Rheolwr Cofrestredig	Wedi'i gwblhau

tân ddod i'r clinig, fel yr eglurwyd yn ystod yr arolygiad. Mae'r gwaith gwasanaethu bellach wedi'i gwblhau, ac mae'r dystysgrif wedi'i hatodi fel tystiolaeth. O ran arwyddion 'Dim Smygu', rwyf bellach wedi arddangos arwyddion priodol yn y clinig. Ar ôl cael cyngor gan gynghorydd diogelwch tân, deallaf nad yw'n orfodol gosod arwyddion ychwanegol ym mhob rhan o'r safle. Serch hynny, rwyf wedi gosod arwyddion i hyrwyddo diogelwch tân a chydymffurfiaeth ymhellach. O ran hyfforddiant diogelwch tân, rwyf wedi cwblhau Asesiad Risg Tân Lefel 3 a Hyfforddiant Diogelwch Tân ac rwyf ar hyn o bryd yn aros am fy nhystysgrif. Yn ogystal, mae ymarfer tân bellach wedi'i gynnal yn y clinig, ac rwyf wedi llunio Cofnod Ymarferion Tân. Bydd ymarferion tân yn cael eu cynnal bob chwe mis, a bydd pob ymarfer tân ac unrhyw ganfyddiadau yn cael eu cofnodi a'u hadolygu. O ran yr allanfa dân gefn, rwyf wedi trafod y mater hwn â staff y garej cyfagos. Maent wedi cytuno i wneud gwelliannau i sicrhau bod y llwybr ymadael yn cael ei gadw'n glir ac yn addas ar gyfer gadael y safle mewn argyfwng. Ar adeg yr arolygiad, roedd bwrdd pren cadarn eisoes ar gael, y gellid ei osod dros y gris er mwyn hwyluso mynediad mewn argyfwng, gan gynnwys i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn. Serch hynny, rwy'n sylweddoli pwysigrwydd sicrhau bod llwybr dianc diogel a di-rwystr ar gael yn barhaol, ac rwyf wedi cymryd camau ar y cyd â deiliad yr eiddo cyfagos i sicrhau yr ymdrinnir â hyn. Diogelwch cleifion, ymwelwyr a staff yw fy mhrif flaenoriaeth. Ers yr arolygiad, rwyf wedi cymryd camau di-oed i fynd i'r afael â'r holl bryderon a godwyd ac rwyf wedi gwella trefniadau diogelwch tân y clinig i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r gofynion cyfreithiol a'r arferion gorau yn gywir.		
---	--	--

Canfyddiadau		Ni chawsom dystiolaeth bod hyfforddiant hanfodol, gan gynnwys Craidd Gwybodaeth, diogelu, ac atal a rheoli heintiau wedi'i gwblhau.
Yr hyn sydd angen ei wella		Safon / Rheoliad
3.	Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod yr holl hyfforddiant hanfodol yn cael ei gwblhau a'i adolygu ar	Rheoliad 20 (2)(a) o Reoliadau Gofal

	adegau priodol.	Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	
Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth:		Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae Alina Skorohoda wedi cwblhau cwrs Laser a Goleuni Pwls Dwys Lefel 4 yn llwyddiannus, ac roedd y dystysgrif wedi'i harddangos yn y clinig yn ystod yr arolygiad. Rwyf ar ddeall bod elfennau Craidd Gwybodaeth ac Atal a Rheoli Heintiau wedi'u cynnwys fel rhan o'r cymhwyster hwn. Os yw'n ofynnol gan AGIC bod dystysgrifau ar wahân ar gael yn hyn o beth, rwy'n fodlon cwblhau'r hyfforddiant ychwanegol. Fodd bynnag, byddai hyn yn golygu talu am hyfforddiant sydd, yn fy marn i, eisoes wedi'i gwblhau fel rhan o fy nghymhwyster Lefel 4. Er mwyn ategu fy ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus ymhellach, rwyf hefyd wedi cwblhau cwrs Atal a Rheoli Heintiau ychwanegol ac rwyf ar hyn o bryd yn aros am y dystysgrif. Yn ogystal, rwyf wrthi'n cwblhau hyfforddiant Diogelu Plant Lefel 3 ac yn bwriadu cwblhau hyfforddiant Diogelu Oedolion yn syth wedi hynny i sicrhau cydymffurfiaeth lawn â disgwyliadau AGIC. Fel rwyf wedi'i ddatgan drwy gydol fy ymateb, diogelwch a llesiant ein cleifion yw prif flaenoriaeth FemHaus. Rwyf wir yn cymryd fy nghyfrifoldebau proffesiynol o ddifrif ac wedi gweithredu'n ddi-oed i gwblhau neu ddiweddarau unrhyw hyfforddiant ychwanegol y gofynnwyd amdano, gan sicrhau bod y clinig yn parhau i ddarparu gofal diogel, effeithiol o ansawdd uchel.		Rheolwr Cofrestredig	Wedi'i gwblhau

Canfyddiadau		Rhaid i'r gwasanaeth weithredu a chynnal cofrestr triniaethau cleifion gyflawn a chywir sy'n cofnodi pob triniaeth laser, gan gynnwys paramedrau trin, manylion y gweithredwr, asesiadau clinigol ac ôl-ofal, er mwyn sicrhau gofal diogel a chyson y gellir ei olrhain.
Yr hyn sydd angen ei wella		Safon / Rheoliad
4.	Rhaid i'r gwasanaeth weithredu a chynnal cofrestr triniaethau cleifion gyflawn a chywir sy'n cofnodi pob triniaeth laser, gan gynnwys paramedrau trin, manylion y gweithredwr, asesiadau	Rheoliad 45 (2) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011

	clinigol ac ôl-ofal, er mwyn sicrhau gofal diogel a chyson y gellir ei olrhain.		
Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth:		Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ar adeg yr arolygiad, roedd yr ymarferydd yn cofnodi paramedrau triniaethau laser a dyddiadau'r triniaethau fel mater o drefn ar ffurflen ymgynghori'r claf yn dilyn pob sesiwn driniaeth. Roedd modd cadarnhau amser y driniaeth hefyd drwy ein system trefnu apwyntiadau electronig. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod nad oedd y wybodaeth hon yn cael ei chadw fel rhan o gofrestr triniaethau laser ar wahân fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Yn dilyn yr arolygiad, rwyf wedi diweddarau'r ffurflen ymgynghori er mwyn cynnwys adran bwrpasol ar gyfer cofnodi'r dyddiad, yr amser, a'r paramedrau laser a ddefnyddiwyd yn ystod pob sesiwn driniaeth. Yn ogystal, mae cofrestr triniaethau laser bellach wedi'i rhoi ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth lawn â Rheoliad 45(2) ac i sicrhau y gellir olrhain y gofal yn llawn a chynnal parhad gofal. O ran y cyfarpar laser, cynhelir gwiriadau diogelwch dyddiol cyn ei ddefnyddio. Gan mai fi yw'r unig ymarferydd sy'n defnyddio'r laser, cefais wybod gan y gwneuthurwr bod y gwaith cynnal a chadw arferol yn cynnwys gwiriadau gweithredol dyddiol, newid y dŵr yn unol ag amserlen benodol, a gwasanaethu'r cyfarpar ar yr adegau a argymhellir. Mae'r gweithdrefnau hyn bellach yn cael eu dogfennu fel rhan o gofnodion cynnal a chadw cyfarpar y clinig. Fel bob amser, diogelwch cleifion yw'r brif flaenoriaeth yn FemHaus, ac rwyf wedi cymryd camau ar unwaith i gryfhau ein gweithdrefnau dogfennu a chadw cofnodion er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r gofynion rheoliadol.		Rheolwr Cofrestredig	Wedi'i gwblhau

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth: Alina Skorohoda

Enw (priflythrennau): Alina Skorohoda

Swydd: Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: 28 Gorffennaf 2026

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: FemHaus

Dyddiad yr arolygiad: 18 Mehefin 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Nid oedd y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 6 (1), 7 (1)	Mae'r Datganiad o Ddiben a'r Canllaw i Gleifion wedi cael eu hadolygu a'u diweddarau er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth sy'n ofynnol o dan Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 wedi'i chynnwys. Bydd y dogfennau diwygiedig yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a phryd bynnag y gwneir unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn parhau i fod yn gywir, yn gyfredol	Rheolwr Cofrestredig	Wedi'i gwblhau – Awst 2026

				ac yn glir i gleifion.		
2.	Ni welsom dystiolaeth o bolisi cwynion.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi polisi a gweithdrefn gwyno ar waith sydd ar gael i'r cleifion yn ôl y gofyn.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 24	Mae Polisi a Gweithdrefn Gwyno ffurfiol wedi cael eu rhoi ar waith. Mae'n egluro sut y gall cleifion fynegi pryder neu wneud cwyn, sut y bydd cwynion yn cael eu cydnabod, sut yr ymchwilir iddynt a sut yr ymatebir iddynt, a sut y gall cleifion uwchgyfeirio eu pryderon os ydynt yn parhau'n anfodlon. Bydd y polisi ar gael yn hwylus i'r cleifion a chaiff ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn parhau'n gyfredol ac yn effeithiol.	Rheolwr Cofrestredig	Wedi'i gwblhau – Awst 2026

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth: Alina Skorohoda

Enw (priflythrennau): Alina Skorohoda

Swydd: Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: Awst 2026